# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

## Cofnodion Cryno : HWLG(3)-15-10 : 6 Hydref 2010

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_200000_06_10_2010&t=0

**Amser: 09.01 – 11.34**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Darren Millar, Gorllewin Clwyd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Veronica German, Gorllewin De Cymru
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Helen Mary Jones, Llanelli
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe

#### Tystion

Kevin Richards, Rheolwr Gyfarwyddwr, Apêl Plasty'r Gelli Aur (Healing the Wounds) (Eitem 2)
Carol Richards, Cyfarwyddwr, Apêl Plasty'r Gelli Aur (Healing the Wounds) (Eitem 2)
Dr Alastair Clarke-Walker (Eitem 2)
Robert Paxman, Prif Swyddog Gweithredol a Sylfaenydd Talking2Minds (Eitem 3)
Ian Pitchford, Hyfforddwr a Darparwr Therapi, Talking2Minds (Eitem 3)
Neil Loughborough, Defnyddiwr Gwasanaeth (Eitem 3)
Nicolas Cowan, Defnyddiwr Gwasanaeth (Eitem 3)
Simon Weston OBE, Noddwr Talking2Minds (Eitem 3)
Dr David Thomas, Ymgynghorydd Meddygol mewn Iechyd Cyhoeddus Deintyddol, Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (Eitem 4)
Dr Hugh Bennett, Ymgynghorydd Meddygol mewn Iechyd Cyhoeddus Deintyddol, Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (Eitem 4)
Professor Jeremy Knox, Arweinydd Gwefus a Thaflod Hollt ac Orthodeintydd Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (Eitem 5)
Emma Proctor, Pennaeth Gofal Sylfaenol, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (Eitem 5)

### Staff y Pwyllgor

Marc Wyn Jones, Clerc
Sarita Marshall, Dirprwy Glerc
Steve Boyce, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (Eitemau 2 a 3 yn unig)
Sarah Hatherley, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (Eitemau 4 a 5 yn unig)

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Andrew RT Davies ac Irene James. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

### Eitem 2: Ymchwiliad i Driniaeth ar gyfer Anhwylder Straen Wedi Trawma i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog: casglu tystiolaeth (09.00-09.40)

#### Papur: HWLG(3)-15-10-p1 Healing the Wounds

#### HWLG(3)-15-10-p2 Dr Alastair Clarke-Walker

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Apêl Plasty'r Gelli Aur a Dr Alastair Clarke-Walker o ran diagnosis a thriniaeth o PTSD; gwasanaethau arbenigol a chyffredinol; gwasanaethau ar gyfer y dyfodol; cyn-filwyr a gaiff ddiagnosis ychwanegol; a'u hargymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau ar gyfer cyn-filwyr sy'n dioddef PTSD.

#### Cam gweithredu

Dr Alastair Clarke-Walker i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am bapur ymchwil ar PTSD mewn aelodau iau a / neu aelodau sy'n is yn rhengoedd y lluoedd arfog.

## Eitem 3: Ymchwiliad i Driniaeth ar gyfer Anhwylder Straen Wedi Trawma i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog: casglu tystiolaeth (09.40-10.20)

**Papur: HWLG(3)-15-10-p3 Talking2minds**

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Talking2Minds am ei waith; cyn-filwyr a throsglwyddo i fywyd y tu allan i'r lluoedd arfog; gwasanaethau ar gyfer cyn-filwyr sy'n dioddef PTSD; gwasanaethau ar gyfer y dyfodol; a'i argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau ar gyfer cyn-filwyr sy'n dioddef PTSD.

**Camau gweithredu**

Talking2Minds i ddarparu atebion ysgrifenedig i gwestiynau nas gofynnwyd oherwydd cyfyngiadau amser.

Talking2Minds i ddarparu papur ar y therapïau a gynigir ganddo.

Y Tîm Clercio i edrych ar y posibilrwydd o gynnal ymweliad â chanolfan driniaeth Talking2Minds.

## Eitem 4: Ymchwiliad i Wasanaethau Orthodontig yng Nghymru: casglu tystiolaeth (10.20-11.00)

**Papurau: HWLG(3)-14-10-p4 Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol**

**HWLG(3)-14-10-p4 Atodiad A**
**HWLG(3)-14-10-p4 Atodiad B**

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol o ran gwariant ar driniaeth orthodontig; comisiynu triniaethau orthodontig mewn gofal sylfaenol; ansawdd canlyniadau enillion iechyd; amseroedd aros orthodonteg a'r ôl-gronniad o gleifion; ac adnoddau.

## Eitem 5: Ymchwiliad i Wasanaethau Orthodontig yng Nghymru: tystiolaeth gan y Byrddau Iechyd Lleol (11.00-11.40)

**Papurau: HWLG(3)-14-10-p5 Byrddau Iechyd Lleol**

**HWLG(3)-14-10-p5 Atodiad A**
**HWLG(3)-14-10-p5 Atodiad B**

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Byrddau Iechyd Lleol am effaith y contract deintyddol newydd ar y ddarpariaeth o wasanaethau orthodonteg gofal sylfaenol; cyfeiriadau i ofal sylfaenol a gofal eilaidd; amseroedd aros hir ar gyfer asesiadau a thriniaeth ddilynol; y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol; cydgysylltu triniaeth orthodontig a monitro a rheoli contractau; a chomisiynu gwasanaethau yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

**Cam gweithredu**

Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i ddarparu nodyn ar gyfer y Pwyllgor o'i drefniadau ar gyfer gwella amseroedd aros.

## 6. Papurau a nodwyd

Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn:

HWLG(3)-14-10 – Cofnodion y cyfarfod blaenorol